Parc Cenedlaethol Eryri
Marick Communications
Marick Communications
Cymen – Cyfieithydd
Cymen – Cofnodwr

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Dirprwy Gadeirydd bawb i'r cyfarfod am 1pm. Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol: -

Keith O'Brien, Cadeirydd

Mike Baggs,
David Wilby,
Iwan Williams,

Asiantaeth yr Amgylchedd
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru

Jonathan Cawley,
Gwen Pettifor,
Sioned Williams,
Medwyn Williams

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sefydliad y Merched
Cyngor Gwynedd
Cyngor Cymuned Penrhyndeudraeth

2. Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2021

Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2021 fel cofnod cywir – (JIJ/AR).

3. Materion yn codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2021

Ni chodwyd unrhyw faterion.

4. Araith y Dirprwy Gadeirydd – John Richards

Hysbysodd y Dirprwy Gadeirydd yr aelodau bod y Cyng Keith O'Brien (Cadeirydd) wedi bod yn sâl yn ddiwedder a'i fod wedi dychwelyd adref erbyn hyn yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Walton Lerpwl. Cytunwyd yn unfrydol i anfon dymuniadau gorau'r GRhS am adferiad llawn a chyflym iddo.

Croesawodd hefyd y Cyng Gwynfor Owen fel Cynghorydd newydd Cyngor Gwynedd ar gyfer Harlech, Mr Simon Napper a oedd yn cynrychioli'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), a oedd yn ymgymryd â dyletswyddau Jonathon Jenkins yn ystod ei secondiad dwy flynedd i BEIS.

Darparodd y Dirprwy Gadeirydd adroddiad byr ar y canlynol: -

- Cyfarfod Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion GRhS Magnox – 5 Tachwedd 2021

Digwyddiadau i Ddod

- Cynhadledd NDA ar 26 Tachwedd 2021 – y mae holl Aelodau GRhS wedi'u gwahodd i'w mynychu.
- Cyfarfod Diweddariad Chwarterol Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion GRhS – 17 Rhagfyr 2021

5. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cau Safle – Angharad Rayner

Diolchodd Angharad Rayner, Cyfarwyddwr Safle i'r Cadeirydd am ei groeso a chyflwynodd grynodedb o'i hadroddiad fel a ganlyn:-

Roedd yn gobeithio bod yr holl aelodau wedi cael cyfle i wyllo'r fideo o'r daith rithiol o'r Ymweliad Safle a oedd wedi'i ddsbarthu'n flaenorol. Roedd hyn yn dangos y gwaith y mae Erith ac OBR yn ei wneud yn storffeydd diogel yr adweithyddion wrth i'r prosiect olaf baratoi i leihau uchder yr adeiladau a'r prosiect dymchwel a gwaredu'r gwastraff o gyfaddailad y pyllau.

Tynnodd AR sylw yn benodol at ddigwyddiad diogelwch yn Hinkley Point. Roedd hyn wedi arwain at unigolyn yn disgyn 2 fetr i uned gaeedig asbestos ac mae'n ein hatgoffa bod yn rhaid i ddiogelwch fod yn flaenoriaeth ym mhob gweithgarwch Safle bob amser. Mae Magnox wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r digwyddiad ac wedi derbyn argymhellion a chamau gweithredu i wneud gwelliannau i atal digwyddiad fel hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Nodwyd yr adroddiad diogelwch yn Traws fel a ganlyn:

Nifer y dyddiau a gollwyd ers damwain amser a gollwyd ar hyn o bryd yw 1916 diwrnod.

Mae 671 diwrnod ers digwyddiad halogiad.
Ac 88 diwrnod ers digwyddiad amgylcheddol arwyddocaol.

Cynaliadwyedd

Mae grŵp llywio Cynaliadwyedd Trawsfynydd wedi'i sefydlu sy'n cael ei gynrychioli gan ystod eang o unigolion o bob rhan o'r safle, sy'n frwd dros fod yn rhan o'r fenter hon.

Mae'r grŵp yn cael ei arwain gan noddwr Arweinydd Tîm, Rheolwr EHSS&Q, Andrew Innes a chydlynnydd Cynaliadwyedd y safle yw Sion Richards.

COVID 19 – diweddariad

Mae'r gwelliannau canlynol wedi'u cyflwyno

- Adolygu ein hasesiadau risg awyru
- Paratoi cyfres o sgysiau blwch offer yn canolbwyntio ar rai o'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer darparu gweithle diogel o ran Covid-19
- Ail-agor y cyfleuster profi yn y Ganolfan Ymwelwyr ar gyfer dwy sesiwn lle bydd y tîm LFT ar gael i arwain pobl drwy'r broses a darparu unrhyw help neu gymorth y gallai fod eu hangen arnynt

Proffil o'r Gweithlu

Magnox	168
Gweithwyr Asiantaeth	56
Cyfanswm	224
% lleol	95%

Ers dechrau'r flwyddyn galendr mae Magnox wedi llwyddo i drosglwyddo cyfanswm o 13 o Weithwyr Asiantaeth i gontractau Magnox.

Mae Magnox wedi penodi tri ymgeisydd allanol i rolau gyda Magnox ac mae tri ymgeisydd arall yn mynd drwy'r broses ymuno yn awr.

Gwobrau Rhagoriaeth Diogelwch a Llesiant Grŵp NDA

Roedd 3 ymgais o Drawsfynydd ar y rhestr fer yng Ngwobrau Rhagoriaeth Llesiant eleni, a derbyniodd dau ohonynt ganmoliaeth uchel sy'n gyflawniad gwych i'r safle.

Rhaglen Hwyluso'r Drefn

Mae Trawsfynydd yn safle peilot ar gyfer Hwyluso'r Drefn ar draws Magnox sy'n golygu treialu technoleg ac offer gweithle newydd i weld pa wahaniaeth y gallant ei wneud i fywyd gwaith pobl.

Cynhaliodd y tîm Technoleg Hwyluso'r Drefn, mewn cydweithrediad â'r tîm Seiberddiogelwch a Sicrhau Gwybodaeth sioe deithiol ar y safle yn ddiweddar, a oedd yn canolbwyntio ar bedair ffrwd gwaith:

Adnoddau Dynol

Ymddygiad a diwylliannol

Technoleg

Hwyluso'r drefn / hwyluso lleoedd

Grŵp Iechyd a Llesiant

Mae grŵp Iechyd a Llesiant y safle wedi bod yn rhagweithiol iawn ar hyd y pandemig, yn cynnig gweithgareddau corfforol a rhithiol, gan gynnwys boreau coffi i roi cyfle i'r rhai

sy'n gweithio o adref ryngweithio â chydweithwyr nad ydynt wedi'u gweld ers tro fwy na thebyg.

Cyflawniadau gwastraff 2020/21

Dywedodd AR, yn erbyn targed o gasglu 50 tunnelli o wastraff lefel canolraddol (ILW) yn ystod y flwyddyn ariannol hon, bod 30 tunnelli wedi'u casglu hyd yma a rhagwelir y bydd 46te wedi'i gasglu erbyn diwedd Mawrth 2022 (tua 5 tunnelli o ILW wedi'i osgoi drwy lanhau Gwastraff Lefel Isel).

Cyflawniadau rheoli asedau

- Mae gwaith Pwmp Dail a'r Geuffos Dargyfeirio yn agos at gael ei gwblhau, gan leihau risg cyflwr asedau i safle Trawsfynydd. Rhoddwyd y contract i adnewyddu'r Gwaith Carthfosaeth i JN Bentley.
- Cafodd 1.5Te o eitemau gwaith halogedig eu dihalogi a'u clustnodi i'w hailgylchu drwy gyfleuster trin pwrpasol.
- Mae dihalogi'r Ataliwr Olew yn y prif faes parcio yn cael gwared ar beryglon etifeddiaeth o'r safle.
- Adnewyddu'r prif faes parcio
- Adnewyddu Sgwâr y Ddraig.
- Mae gwaith Diraddio LC28 (Archwiliadau a Diffygion Strwythurol Adeiladau Sifil) ar SS1 a SS2 wedi'i gwblhau
- Mae Diffygion Pyllau a Storfeydd Diogel LC 28 wedi dechrau.

Mae timau Rheoli Asedau ac Offer a Strwythurau wedi bod yn cydweithio i ddihalogi mwy na 1.5Te o offer a oedd wedi'u clustnodi i'w hailgylchu.

Datgomisiynu cyfadeilad y pyllau

Mae tîm Hunan-Berfformiad Magnox yn perfformio'n dda iawn a gwelir cynnydd da ar y safle.

Mae gwaith wedi'i gwblhau yn yr ardaloedd canlynol:

- Tanciau Oedi Terfynol
- Ystafell Switsys
- Ystafell Oeri Pyllau
- Ystafell Hidlo y De
- Datgomisiynu'r ardal Islawr Trin Elifant Gweithredol. Cyflawnwyd carreg filltir arwyddocaol drwy gael gwared ar yr ardal offer etifeddiaeth â lefel perygl uchel.
- Dechreuodd gwaith yn y Gwaith Trin Dŵr Tywalltedig – ardal offer etifeddiaeth halogedig arwyddocaol arall.

Gwaith galluogi lleihau uchder storfeydd diogel

Mae'r safle ar y cam olaf o baratoi ar gyfer gwaith galluogi lleihau uchder.

- Gwaith cael gwared ar asbestos wedi'i gwblhau mewn 6 o'r 8 codwyr cebl.
- Disgwylir i'r gwaith orffen yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23.
- Cwblhawyd gweithgareddau caffael y Gadwyn Gyflenwi Gychwynnol ar gyfer cefnogaeth ymgynghorydd Dymchwel a Pheirianeg Ymgynghorol - penodwyd RVA fel Ymgynghorydd Dymchwel a phenodwyd Arup fel Ymgynghorydd Cymorth Peirianeg
- Adolygu goblygiadau Caniatâd Cynllunio

- Cytuno i gyflymu Cam 2 To Capió fel galluogwr allweddol er mwyn cwblhau'r ardaloedd bach o do Capió (a hepgorwyd yn wreiddiol ar gyfer gofynion gweithredol)
- Cwblhau Amcan Ansawdd Data Nodweddion a chynlluniau Sampló a Dadansoddi yn cael eu datblygu
- Cwblhawyd Adolygiad 2 yr Awdurdod Dylunio
- Cwblhawyd Adolygiad 2 yr Awdurdod Gwastraff
- Arolygon Ymchwil a Datblygu Asbestos wedi dechrau

Gwaith ar y safle ar gyfer y 6 mis nesaf

Roedd AR yn falch o hysbysu'r aelodau bod gwaith adfer swmp Malurion Elfen Tanwydd (FED) y De wedi'u cwblhau yn awr. Gwaith arfaethedig eraill:

- Cwblhau gwaith nodweddu concrit hydraidd yn Naeargell Malurion Elfen Tanwydd (FED) y Gogledd.
- Cwblhau gwaith cael gwared ar asbestos yng nghodwyr cebl Storfa Ddiogel 2.
- Cwblhau'r gwaith o dynnu waliau mewnol Storfeydd Diogel 1 a 2.
- Cwblhau'r gwaith o ddatgomisiynu Gwaith Trin Dŵr Tywalltedig yng Nghyfedeilad y Pyllau.
- Cwblhau gwaith y prif contractwr JN Bentley, i Bwmp Dail a'r Geuffos Dargyfeirio a datgomisiynu eu safle.

Cyllid Economaidd-Gymdeithasol Magnox

Cymorth Covid - Mae £236,000 o £300,000 wedi'i gymeradwyo hyd yma. Darparwyd £25,000 i Awdurdodau Lleol ger y 12 safle Magnox ac roedd y mwyafrif o'r cymorth ar gyfer darpariaethau banciau bwyd ac offer PPE. Prynwyd argraffwyr 3D hefyd ar gyfer ysgol uwchradd a choleg er mwyn cynhyrchu feisorau ar gyfer gweithwyr allweddol.

Mae **Neuadd Goffa Cricieth** wedi derbyn £1,000 o gyllid economaidd-gymdeithasol cymydog da er mwyn gwella'r effeithlonrwydd ynni yn y neuadd.

Mae **Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn Tegid** wedi sefydlu Prosiect y Ddraig Goch i ddatblygu ac adeiladu estyniad rheilffordd £3.5 miliwn i dref Y Bala. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth £23,000 o gyllid gan Magnox yn 2019 a gefnogodd gamau cynnar y prosiect. Cymeradwywyd £38,970 ychwanegol ar gyfer ffioedd proffesiynol i gyflawni goblygiadau gan gyrrff cynllunio a rheoleiddio. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â phrosiect gwerth £6.5 miliwn gan Cyfoeth Naturiol Cymru i uwchraddio amddiffynfeydd llifogydd y dref yn sylweddol yn dilyn caniatâd cynllunio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Disgwylir i'r gwaith ddechrau ym mis Rhagfyr 2021.

Mae **Grŵp Llandrillo Menai** wedi derbyn £386,034 o gyllid uniongyrchol gan yr NDA tuag at brosiect LabSTEM gwerth £1.9 miliwn. Bydd 10 labordy ar draws eu safleoedd yn elwa ar waith adnewyddu ac uwchraddio, gan gynnwys safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor ym Mhwillheli a Dolgellau.

Sesiwn Holi ac Ateb

Llongyfarchodd y Cynghorydd G Owen AR ar y fideo Ymweliad Safle; fodd bynnag, nododd ei bryderon y gallai gael ei ddileu ac na fyddai ar gael ar ôl y cyfarfod hwn. Cadarnhaodd Jill Callander na fyddai'r fideo hwn, sydd wedi'i rannu gyda holl Aelodau GRhS Trawsfynydd, i'w galluogi i weld y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y safle (mae

Covid wedi atal taith safle arferol), yn cael ei ddileu a'r gobraith oedd y byddai'n cael ei ddsbarthu ac y byddai ar gael wrth symud ymlaen.

Holodd y Cynghorydd Meredydd Williams ynghylch y manylion o ran gwaith lleihau uchder a gwaredu deunydd dymchwel. Nododd AR bod y gwaith lleihau uchder yn rhan o gwmpas y gwaith presennol ar y safle ac y byddai cyflwyniad Mr Ian Warner (*yn Eitem 10 ar yr Agenda*) yn darparu eglurder pellach.

Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i AR am ei chyflwyniad manwl ac yn benodol y newyddion ynghylch y cyfleoedd prentisiaeth ac adnewyddu Sgwâr y Ddraig.

Canmolodd Paul Richardson fideo Taith Rithiol Traws.

6. Adroddiad gan Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear – Ian Dallas

Croesawyd Mr Ian Dallas i'r cyfarfod a dywedodd wrth yr aelodau bod y Swyddfa Reoleiddio Niwclear o'r farn bod y trefniadau a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd 1 Ebrill 2021 i 30 Medi 2021, yn foddhaol yn yr ardaloedd a arolygwyd. Nododd ID bod croeso i aelodau gysylltu ag ef drwy e-bost rhwng cyfarfodydd y GRhS pe byddai ganddynt unrhyw gwestiynau neu ymholiadau.

Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd Paul Richardson a oedd Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear yn cefnogi unrhyw ddulliau gweithredu i helpu i symleiddio prosesau a oedd wedi'u halinio â safle gynhyrchu cyn hyn, o ran rheoliadau. Ymatebodd ID drwy gadarnhau mai cyfrifoldeb y Trwyddedai fyddai cynnig unrhyw newidiadau ac mai'r Trwyddedai oedd yn bennaf gyfrifol am ddiogelwch. Nododd nad oedd unrhyw gyfarwydddebau yn y rheoliadau sy'n atal gweithredwyr rhag cyflwyno unrhyw awgrymiadau a fyddai'n cefnogi ffyrdd gwell o weithio, ac y dylid gwneud hyn drwy eu Rheolwyr Llinell. Pwysleisiodd bwysigrwydd cynnal llinellau cyfathrebu agored ac y byddai'n ymweld â Thrawsfynydd yn ystod yr wythnos yn dechrau 13 Rhagfyr 2021 ac y byddai'n fodlon cytuno ar apwyntiad sy'n gyfleus i bawb i drafod hyn ymhellach.

7. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru – Iwan Williams

8. Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd – Mike Baggs

Roedd IW a MB wedi cyflwyno ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn, fodd bynnag, roeddent yn croesawu unrhyw sylwadau neu ymholiadau drwy e-bost drwy Jill Callander.

9. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Simon Napper

Croesawyd Mr Simon Napper i'r cyfarfod a darparodd grynodedb o adroddiad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, gan dynnu sylw penodol i'r canlynol:-

COVID 19

- Mae'r gweithlu yn parhau i weithio o adref i raddau helaeth
- Cynhelir proses ddychwelyd flaengar, wedi'i rheoli i swyddfeydd o 2 Awst 2021
- Byddwn yn parhau i fabwysiadu cymysgedd o weithio o adref ac yn y swyddfa yn seiliedig ar ddull hyblyg ac angen busnes
- Proses ddychwelyd flaengar i fwy o ymgysylltiad wyneb yn wyneb yn seiliedig ar drafodaeth gyda rhanddeiliaid

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

- Cyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf
- Cynnydd wedi parhau er gwaethaf effaith COVID-19
- Lleihau peryglon yn Sellafield a Dounreay
- Dychwelyd gwastraff dramor
- Strwythur newydd i'r Grŵp
- Cyfanswm y gwariant yn is na'r rhagolygon - £3.059bn yn erbyn £3.486bn
- £612 miliwn o incwm

Adroddiad Cynnydd Cenhadaeth – cyhoeddwyd ar 4 Tachwedd.

Nododd SN bod yr adroddiad hwn yn dangos faint o gynnydd a wnaed yn ein cenhadaeth ers 2005, a faint o waith sydd ar ôl i'w wneud yn y 120 a mwy o flynyddoedd. Mae cynnydd a nodau wedi'u halinio â'r rhai yn Strategaeth 4, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

Datblygiad Grŵp yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)

Tîm newydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer y grŵp NDA – Tîm Arweinyddiaeth Grŵp NDA

- Mae hyn yn alinio gyda phroses o newid i fodel ategol newydd er mwyn cynyddu buddiannau gweithio fel grŵp
- Mae'n cynnwys Prif Swyddog Gweithredol a swyddogion gweithredol canolfan gorfforedig yr NDA a Phrif Swyddogion Gweithredol/Rheolwyr Gyfarwyddwyr cwmnïau gweithredu'r grŵp
- Penodwyd Dr Adrian Simper i rolau ar y cyd Prif Gynghorydd Gwyddonol yr NDA a Phrif Gynghorydd Niwclear i BEIS

Gwasanaethau Gwastraff Niwclear

- Mae isadran gwastraff y NDA ar y trywydd cywir i gael ei lansio ar 31 Ionawr 2022, sy'n dod â LLWR a RWM ynghyd o dan dîm gweithredol a hunaniaeth gyffredin
- Fe'i gelwir yn Wasanaethau Gwastraff Niwclear, gyda'r logo a'r hunaniaeth yn parhau i gael eu datblygu
- Bydd y gwaith o ddydd i ddydd ar gyfer y mwyafrif o gyflogeion yn parhau'n ddigyfnewid.
Bydd adrannau a swyddogaethau yn ystyried integreiddio tu hwnt i'r lansiad.
- Nid yw'r tîm gweithredol newydd yn dechrau yn eu swyddi hyd at 31 Ionawr.

Y NDA i Ddatgomisiynu safleoedd Uwch Adweithyddion Nwy

- Cyfeiriwyd gan y llywodraeth i gymryd perchnogaeth bellach ar saith safle EDF AGR ar gyfer datgomisiynu
- Bydd Magnox Ltd yn gyfrifol am ddatgomisiynu'r saith safle ar ôl gwagio tanwydd
- Yn destament o'r sgiliau, gwybodaeth a'r profiad yn y grŵp NDA – a hyder y llywodraeth yng ngallu'r NDA
- Edrychwn ymlaen at weithio gydag EDF Energy i sicrhau trosglwyddiad di-dor gorsafoedd yn y blynyddoedd i ddod

Gweithgor Theddlethorpe

- Mae RWM yn croesawu sefydlu Gweithgor Theddlethorpe
- Mae'n darparu llwyfan ar gyfer dechrau trafodaethau lleol ar leoliad posibl cyfleuster gwaredu daearegol
- Mae'n dynodi dechrau proses archwiliadol o ganfod ffeithiau a thrafod

- Mae dau weithgor presennol yn Cumbria – Copeland ac Allerdale

Ymchwiliad ac Adroddiad Adolygiad Adrannol Magnox

- Mae'r Llywodraeth a'r NDA wedi cyhoeddi eu hymatebion i Ymchwiliad ac Adolygiad Adrannol Magnox (Adroddiad Holliday)
- Croesewir argymhellion yr adroddiad
- Cynnydd sylweddol ers 2017:
- Model gweithredu newydd
- Atgyfnerthu'r swyddogaethau cyfreithiol, masnachol a sicrwydd
- Tîm Arweinyddiaeth y Grŵp

Penodiadau Newydd

- Bydd Jamie Reed yn ymuno â'r NDA y mis hwn i ddod yn gyfarwyddwr Effaith Gymdeithasol, bydd yn datblygu dull gweithredu'r NDA ar economeg-gymdeithasol ym mhob safle NDA
- Ymunodd Dr Sam Harris â'r NDA fel Pennaeth Materion Llywodraeth

Mae digwyddiad cadwyn gyflenwi'r NDA fel a ganlyn: -

- Dyddiad newydd – 3 Chwefror 2022 – yn Y Ganolfan Ryngwladol, Telford. Gohiriwyd ers mis Mehefin 2020 oherwydd y pandemig Covid.
- Seremoni Wobrwyo'r Gadwyn Gyflenwi ar yr un diwrnod – y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12:00 ar 1 Hydref
- Y digwyddiad cadwyn gyflenwi mwyaf yn Ewrop gyda 1,700 o ymwelwyr a 300 a mwy o gyflenwyr

Digwyddiad Rhanddeiliaid NDA

- Cynhelir digwyddiad Rhanddeiliaid NDA ar 26 Tachwedd 2021
- Gwahoddiad yn unig trwy Eventbrite – croesewir holl aelodau'r GRhS
- Cynhadledd rithiol lle gall rhanddeiliaid holi cwestiynau a chlywed paneli ar lwyfan ffrydio byw
- Anfonwyd gwahoddiadau at holl randdeiliaid allweddol y NDA

Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd Rory Trappe ynghylch yr amserlen ar gyfer Pen Rheilffordd Traws/Ffestiniog. Sicrhaodd SN yr aelodau y bydd Magnox yn arwain i ddechrau ar y camau nesaf.

Holodd y Cynghorydd Meredydd Williams a fyddai'r berchnogaeth yn trosglwyddo i Magnox. Dywedodd SN bod y berchnogaeth yn perthyn i'r NDA, bydd Magnox yn datgomisiynu'r safle gyda'r nod o'i drosglwyddo yn ôl i'r gymuned ar ddiwedd y broses ddatgomisiynu.


Holodd Paul Richardson a yw'r Achos Busnes o ran y rhaglen ddatgomisiynu barhaus wedi'i chyflwyno i BEIS. Cadarnhaodd SN nad oedd hyn wedi digwydd. Cadarnhaodd John Turp bod yr Achos Busnes wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Magnox, a'i fod yn nwylo Tîm Arweinyddiaeth y Grŵp yn y NDA ar hyn o bryd ac na fyddai angen ei gyflwyno i BEIS o bosibl, fodd bynnag, bydd yr aelodau yn derbyn manylion am ddyddiadau a datblygiadau.

10. Diweddariad ar y prosiect dymchwel cyfadeilad y pyllau – Ian Warner / Nigel Wright

Croesawyd Mr Ian Warner i'r cyfarfod a darparodd adroddiad yn rhoi diweddariad ar yr eitemau uchod a grynhowyd fel a ganlyn:-

- Roedd fideo ymgynghori â rhanddeiliaid wedi'i 'dreialu' gydag aelodau, a bydd y fersiwn terfynol yn ffurfio rhan o Raglen Allgymorth Rhanddeiliaid.
- Mae trafodaethau yn parhau rhwng Parc Cenedlaethol Eryri; Cyfoeth Naturiol Cymru ac ONR o ran caniatâd cynllunio ac unrhyw faterion perthnasol eraill.
- Y bwriad yw parhau gyda'r gwaith lleihau uchder i ddechrau a chadw unrhyw ddeunydd dymchwel nad yw'n ymbelydrol, a gweithio gyda'r rheoleiddwr i ail-ddefnyddio'r holl ddeunyddiau addas.

Croesawyd Mr Nigel Wright Uwch Reolwr Prosiect hefyd i'r cyfarfod ac amlinellodd yr amserlen ar gyfer cynnydd gyda'r tabl canlynol: -



Nododd bod y prosiect yn y cam 'Cysyniad' ar hyn o bryd. Nododd hefyd y posibilrwydd o gam interim hir.

Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd Paul Richardson pam y byddai twmpathau sgrinio. Dywedodd ID bod hyn yn ffurfio rhan o'r cynllun gwreiddiol er mwyn lleihau effaith oddi ar y safle, fodd bynnag mae'n bosibl y caiff ei ddefnyddio ar gyfer gwaith tirlunio terfynol a slabiau concrit.

Nododd Rory Trappe y dylai'r Pen Rheilffordd ffurfio rhan o'r trafodaethau hefyd ynghylch diddordeb a defnyddiau o'r safle yn y dyfodol. Sicrhodd ID yr aelodau y bydd y Pen Rheilffordd yn ffurfio rhan annatod o holl ddatblygiadau a thrafodaethau safle yn y dyfodol.

11. Rhaglen Dreigl Datgomiynu – John Turp

Croesawyd Mr John Turp i'r cyfarfod a darparodd gefndir cryno i'r Rhaglen Dreigl Datgomiynu.

Cyfeiriodd at Ddatblygu'r Achos Busnes presennol gan nodi bod Achos Busnes Lefel Rhaglen benodol Trawsfynydd yn cael ei ddatblygu yn awr yn seiliedig ar nifer o

senarios rhaglenni. Bydd Achos Busnes Lefel Rhaglen Trawsfynydd yn integreiddio prosiectau presennol ar y safle a phrosiectau arfaethedig Datblygu Prosiectau yn Gyflym mewn un cais – lleihau uchder / datgomisiynu pyllau ac yn y blaen. Bydd yn edrych ar y dilyniant gorau o weithgareddau datgomisiynu ar gyfer rhaglen Trawsfynydd e.e. amseriad gweithgareddau tynnu boeler a datgymalu adweithydd.

Pwysleisiodd JT y canlynol fel y camau nesaf:

- Cwblhau achos busnes Trawsfynydd i bennu cyfeiriad strategol
- Cwblhau cam dylunio cysyniad er mwyn gallu symud ymlaen i ddyluniadau cynllun llawn
- Datblygu a chyflawni cwmpas nodweddion er mwyn sicrhau dealltwriaeth o rinweddau ffisegol a radiocemegol yr adweithyddion
- Aeddfedu'r strategaeth wastraff i ddatblygu ein dulliau gweithredu ar gyfer delio â gwastraff yn y dyfodol, gwastraff ymbelydrol ac anymbelydrol

Sesiwn Holi ac Ateb

Cyfeiriodd Rory Trappe at graffitau ac elfennau craidd ac, yng ngoleuni cynnal y gweithlu medrus presennol a chael mynediad at wybodaeth gan staff sydd wedi ymddeol, gofynnodd a fyddai Magnox yn ymgymryd â'r gwaith hwn. Cadarnhaodd JT ei fod eisoes wedi cael trafodaethau gydag AR ynglŷn â'r mater hwn a chydnabu bod cyfoeth o wybodaeth heb ei gyffwrdd a allai gefnogi a gwella gwaith yn y dyfodol.

Holodd y Cynghorydd Gwynfor Owen beth oedd yr amcangyfrifon o niferoedd y gweithlu yn ystod y 5-6 mlynedd nesaf. Nododd JT nad oedd ateb pendant ar hyn o bryd. Nododd AR nad oedd disgwyl gostyngiad yn nifer y gweithlu yn y 3-5 mlynedd nesaf oherwydd bydd y baich gwaith arfaethedig yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal. Dymunodd sicrhau'r aelodau bod trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal ynghylch cadw staff.

Nododd y Cynghorydd Elfed Roberts ei fod ar ddeall y byddai'r Safle yn cael ei glirio'n llwyr o ddeunydd dymchwel a holodd a yw hyn wedi newid yn awr. Nododd IW bod canllawiau gan y rheoleiddwyr Amgylcheddol wedi newid ers y cynllun gwreiddiol, fodd bynnag, sicrhaudd yr aelodau bod amodau llym yn parhau i fod ar waith er mwyn sicrhau gwarediad priodol.

12. Diweddariad Cwmni Egin – John Idris Jones

Croesawyd Mr John Idris Jones i'r cyfarfod, gan nodi mai hwn oedd ei gyfarfod cyntaf fel Cadeirydd penodedig Cwmni Egin. Cadarnhaodd bod Cwmni Egin wedi cofrestru fel endid ffurfiol y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno erbyn hyn. Mae wedi penodi Mike Tynan fel Prif Weithredwr dros dro sy'n arweinydd profiadol iawn sydd wedi gweithio yn y sector am fwy na 40 o flynyddoedd. Bwriad Cwmni Egin yw datblygu a gweithredu cynllun busnes ffurfiol y cwmni yn y misoedd nesaf er mwyn hwyluso a chyflwyno prosiectau allweddol. Bydd y gwaith hwn wedi'i rannu'n dri cham:

Cam 1 – sefydlu prosesau mewnol y cwmni; cynnal trafodaethau gyda Magnox a'r NDA ynghylch trosglwyddo hawl tir i Gwmni Egin

Cam 2 – cynnal trafodaethau gyda datblygwyr technoleg a'u buddsoddwyr i sicrhau technoleg briodol ar gyfer dyfodol y safle

Cam 3 – sefydlu a chynnal perthynas gadarnhaol a chynhyrchiol gyda phob buddsoddwr yn y dyfodol. Y bwriad yw cwrdd ag aelodau SRG cyn gynted â phosibl.

Cydnabu JIJ bod y rhaglen hon yn un uchelgeisiol ond mai gweledigaeth y cwmni yw – ADFYWIAD, creu cyflogaeth o safon, ffyniant economaidd i'r ardal a dyfodol yr iaith Gymraeg, bydd pob un ohonynt yn cael eu nodi'n gadarnhaol ar sail genedlaethol a rhyngwladol.

Sesiynau Holi ac Ateb

Holodd y Cynghorydd Gwynfor Owen ynghylch effaith cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth Cymru ar drafnidiaeth yng Nghymru wledig. Nododd JIJ ei siom gyda'r penderfyniad i dynnu cefnogaeth yn ôl ar gyfer cynllun ffordd osgoi Llanbedr yn dilyn adolygiad ffyrdd newid yn yr hinsawdd Llywodraeth Cymru. Roedd o'r farn nad oedd y penderfyniad hwn wedi derbyn ystyriaeth briodol a bod diffyg dealltwriaeth o anghenion cefn gwlad. Fodd bynnag, roedd yn dymuno sicrhau'r aelodau y bydd datblygiad cynaliadwy yn Nhrawsfynydd ac y byddai'n gydbwysedd i ddiogelu'r amgylchedd a'r gymuned.

13. Unrhyw Fater Arall Ynni Cymunedol Twrog -

Cyflwynodd Meredydd Williams ddiweddariad ar yr uchod yn absenoldeb Dafydd Watts. Mae gwaith yn parhau ar:

- gosod paneli solar ffotofoltaig ar adeiladau cymunedol
- Prosiect Gwresogi Tanygrisiau mewn cydweithrediad â'n partneriaid Cyngor Gwynedd, Adra, Grŵp Cynefin, Y Dref Werdd a Chwmni Bro Ffestiniog. Mae'r prosiect yn edrych ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd a datgarboneiddio'r 3400 o dai ac eiddo eraill yn Nhanygrisiau. Mae partneriaid y prosiect wedi comisiynu'r ymgynghorwyr Sustainable Energy i gynhyrchu gwerthusiad o opsiynau sy'n cymharu datrysiad rhwydwaith gwresogi gan ddefnyddio allbwn y cynllunio hydrodrydanol rhediad yr afon gerllaw gyda datrysiad sy'n seiliedig ar bympiau gwers unigol yn y tai a datrysiad marchnad ynni lleol yn debyg i fodel lleol Ynni Bethesda er mwyn galluogi aelwydydd i gael gafael ar drydan rhatach pan fydd y cynlluniau hydrodrydanol yn weithredol.
- gweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i osod gwefrwyd cerbydau trydan y mae'r gymuned yn berchen arnynt.
- ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy newydd y mae'r gymuned yn berchen arnynt.

Diolchodd y Cynghorydd MW i bawb am y gwaith a gynhaliwyd ar y cyd gydag Ynni Cymunedol Twrog.

Cyllid Economaidd-Gymdeithasol

Gofynnodd y Cynghorydd Gwynfor Owen am y manylion cyswllt ar gyfer y Cyllid Economaidd-Gymdeithasol. Cytunwyd y byddai Jill Callander yn rhannu'r manylion cyswllt.

16. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dyddiad: 9 Mehefin 2022

Amser: I'w gadarnhau

Lleoliad: I'w gadarnhau

Daeth y cyfarfod i ben gyda John Richards yn diolch i bawb am fynychu, am y mewnbwn gan bob un o'r cyflwynwyr a dymunodd Nadolig diogel a hapus i bawb.